**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod Safle Nos Fawrth, Medi 8fed 2015 am 6.30 yh ar dir ger Hendre Llwyn y Maen, Llanfair TH yn ymwneud â Cheisiadau Cynllunio Rhifau 0/41917 a 0/41947.

Ymddiheuriadau: Ian W Griffith, Ifor G Edwards

Presennol: D Gwynfor Davies (Cadeirydd), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, Emlyn Williams, Gerwyn Davies, Elen H Edwards, Gwyn Williams, Tecwyn Evans a'r Clerc.

Dangoswyd y datblygiad i'r aelodau gan Gwydion Jones ac Iwan Roberts a chafwyd cyfle i ofyn nifer o gwestiynau perthnasol.

********

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned i drafod Ceisiadau Cynllunio nos Fawrth, Medi 8fed 2015 am 8 o'r gloch yng Nghanolfan Bro Cernyw.

Ymddiheuriadau – Ian W Griffith, Ifor Edwards, Cyngh. Dilwyn O Roberts

Presennol – D Gwynfor Davies (Cadeirydd), Diane M Roberts, Elen H Edwards, Tecwyn Evans, Emlyn Williams, Gerwyn Davies, Gwyn Williams, Gwydion Jones, Ann O Vaughan a'r Clerc.

Roedd pedwar aelod o'r cyhoedd yn bresennol a Mr Dafydd Chilton, cyfieithydd.

44.1 DATGAN CYSYLLTIAD - rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda. Mynegodd Gwydion Jones ddiddordeb yn Eitem 3a) a 3b) Ceisiadau Cynllunio rhif 0/41917 a 0/41947

44.2 CEISIADAU CYNLLUNIO
44.2.1 CAIS RHIF 0/41917 Adeiladu pwll dŵr budr amaethyddol (ôl-weithredol) ar dir ger Hendre Llwyn y Maen, Llanfair TH gan Mr Robin Crossley. Gadawodd Gwydion Jones y cyfarfod. Rhoddwyd cyfle i aelod o'r cyhoedd Mr Geoff Stott ddweud gair. Mynegodd bryder ynglyn â'r cais a chyfeiriodd at lwybr cyhoeddus cyfagos, pryder Cyfoeth Naturiol Cymru ynglyn â'r cais, a pherygl diogelwch i'r cyhoedd ac nad oedd archwiliad wedi bod ar y safle. Cynigiwyd bod Mr Iwan Roberts, y datblygwr yn dweud beth yw'r datblygiadau hyd yn hyn a phleidleisiodd chwe aelod o'r Cyngor o blaid hynny. Dywedodd Mr Roberts eu bod yn aros am adroddiad terfynol gan Gyfoeth Naturiol Cymru ond bod swyddogion yn cadw golwg ar y lle. Cafwyd trafodaeth ar y mater o blaid ac yn erbyn ond teimlid os byddai rhywbeth o'i le ar y pwll dŵr budr y byddai swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei stopio yn y fan a'r lle. PENDERFYNWYD cefnogi'r cais ar y sail bod adroddiadau'r asiantaethau yn dod drwodd yn gadarnhaol. Roedd Diane M Roberts yn gwrthwynebu'r cais.

44.2.2 CAIS RHIF 0/41947 Adeiladu sied odro, seilo, sied storio llaeth, swyddfa, gosod tanc dŵr a chreu ardaloedd dal cysylltiedig a thraciau (ôl-weithredol) ar dir ger Hendre Llwyn y Maen, Llanfair TH gan Mr Robin Crossley. Rhoddwyd cyfle i aelod o'r cyhoedd Mr Geoff Stott ddweud gair. Cododd bwyntiau megis – pam fod 6 cais ôl-weithredol wedi eu cyflwyno yn hytrach nag un,

pam na fu arolygiaeth cynllunio, pam fod sôn ar y cais cynllunio tyrbin gwynt am gynyddu'r nifer o wartheg i 700, lle mae'r traciau y sonir amdanynt ar y cynllun? Cafwyd trafodaeth ar y cais a nodwyd nad yw tyrbin gwynt yn rhan o'r cynllun hwn, bod traciau yn rhesymol i gario bwyd i'r gwartheg a bod y Weinyddiaeth Amaeth wedi rhoi grantiau i wneud ffyrdd ar ffermydd nôl yn yr 80au, bod y sied mewn safle addas a darn o graig wedi ei chlirio i wneud y ffordd, bod coed wedi eu plannu yn gysgod. Ond yn erbyn y cais mynegwyd pryder nad oedd un swyddog cynllunio wedi bod ar y safle ac mai sied amaethyddol oedd yn y cais gwreiddiol. Dywedodd Mr Iwan Roberts bod Arolygydd Llaeth wedi ymweld a bydd yn ymweld eto o fewn y deng mlynedd nesaf a bod swyddog Safonau Masnach Conwy wedi galw ddwy waith.
PENDERFYNWYD cefnogi'r cais ond nodi ein bod yn siomedig iawn fod yr holl geisiadau ynghlwm â'r prosiect hwn yn rhai ôl-weithredol. Gwrthwynebodd Diane Roberts y cais.

Daeth Gwydion Jones yn ôl i'r cyfarfod.
PENDERFYNWYD yn unfrydol i anfon at yr Adran Cynllunio i ofyn beth yn union sy'n cael ei gynnwys o fewn 'adeilad amaethyddol' cyn belled â bod cynllunio yn y cwestiwn.

44.2.3 CAIS RHIF 0/42014 Codi adeilad amaethyddol yn Ty Ucha'r Ffordd, Pandy Tudur gan Mr E A Roberts a Ms G E Williams. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.

44.3 MATERION LLEOL
44.3.1 Angen tocio gwrych sy'n dod dros y palmant ger Mynwent Llangernyw ac hefyd mieri sy'n tyfu dros y pafin ar y ffordd i Hafodunos.
44.3.2 Ffordd Nannerth, Pandy Tudur angen ei thrwsio.
44.3.3 Ochr ffordd heibio Bryn Aber a Phlas yn Blaenau angen eu torri – heb eu gwneud eleni.
44.3.4 Angen torri gwrych lawr am Gapel Bethabara.
44.3.5 Brigau wedi disgyn ar y ffordd rhwng Bryn Gwylan a Llanfair TH oherwydd lori uchel – y coed angen eu tocio.
44.3.6 Dau 'manhole' wedi llenwi ar allt Plas Matw – un ar y tro ac un ochr arall i'r bont.
44.3.7 Ochr y ffordd yn feddal ger yr afon ger Sgubor Newydd ac yn beryglus. Deellir bod damwain arall wedi bod yno.

44.4 BILIAU

| | |
|---|---|
| Canolfan Bro Cernyw (Hurio ystafell) | £10 |

Daeth y cyfarfod i ben am 9 o'r gloch.

*Cymeradwywyd y cofnodion …D G Davies ……… Dyddiad …30/9/15……………..*

Site Meeting was held on Tuesday, 8 September 2015 at 6.30 pm on land adjacent to Hendre Llwyn y Maen, Llanfair TH relating to Planning Applications Nos 0/41917 and 0/41947.

Apologies: Ian W Griffith, Ifor G Edwards

Present: D Gwynfor Davies (Chair), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, Emlyn Williams, Gerwyn Davies, Elen H. Edwards, Gwyn Williams, Tecwyn Evans and Clerk.

The development was shown to members by Gwydion Jones and Iwan Roberts and given opportunity to ask a number of relevant questions.

********

Community Council Meeting was held to discuss Planning Applications on Tuesday, 8 September 2015 at 8 pm at Canolfan Bro Cernyw.

Apologies - Ian W Griffith, Ifor Edwards, Cllr. Dilwyn O Roberts

Present - D Gwynfor Davies (Chair), Diane M Roberts, Elen H. Edwards, Tecwyn Evans, Emlyn Williams, Gerwyn Davies, Gwyn Williams, Gwydion Jones, Ann O Vaughan and the Clerk.

Four members of the public attended and Mr Dafydd Chilton, translator.

44.1 DECLARATION - gave members the opportunity to declare a connection with an item on the agenda. Gwydion Jones expressed interest in Item 3a) and 3b) planning applications 0/41917 0/41947.

44.2 PLANNING APPLICATIONS
44.2.1 APPLICATION NUMBER 0/41917 Construction of agricultural dirty water pit (retrospective) at land adjacent to Hendre Llwyn y Maen, Llanfair TH by Mr Robin Crossley. Gwydion Jones left the meeting. Member of the public Mr Geoff Stott had the opportunity to say a word. He expressed concern about the application and referred to a public footpath nearby, Natural Resources Wales's concern re the application, and danger of public safety and that there had not been an inspection of the site. Proposed that Mr Iwan Roberts, the developer explain the developments so far and six members of the Council voted in favour of it. Mr Roberts said that they are waiting for a final report by Natural Resources Wales but officers are keeping an eye on the place. There was discussion on the issue in favour and against but felt if something is wrong with the dirty water pit Natural Resources Wales officer would have stopped work on the spot. RESOLVED to support the application on the basis that the reports from agencies come through positively. Diane M Roberts objected.

44.2.2 APPLICATION NUMBER 0/41947 Construction of milking shed, silo, milk storage shed, office, water tank and associated holding areas and tracks (retrospective) at land adjacent to Hendre Llwyn y Maen, Llanfair TH by Mr Robin Crossley. Member of the public Mr Geoff Stott had the opportunity to say a word. Raised points such as - why 6 retrospective application has been submitted instead

of one, why was there no planning inspectorate, why the wind turbine planning application mentioned increasing the number of cows to 700, where are the tracks mentioned on the plan? There was discussion on the application and noted that the wind turbine was not part of this application, that tracks was reasonable to carry food for the cattle and the Ministry of Agriculture had given grants for farm tracks back in the 80s, the shed in a suitable place and rock has been cleared to make way, trees are planted to provide shelter. But against the application expressed concern that no planning officer had been on the site and that 'agricultural shed' was on the original application. Mr Iwan Roberts said that the Milk Inspector has visited and will visit again within the next ten years and that Conwy Trading Standards officer had called twice.
RESOLVED to support the application but note that we are very disappointed that all the applications involved in this project are retrospective. Diane Roberts opposed the application.

Gwydion Jones came back to the meeting.
RESOLVED unanimously to send to the Planning Department to ask exactly what is included within 'agricultural building' as far as planning is concerned.

44.2.3 APPLICATION NUMBER 0/42014 Erection of agricultural building at Ty Ucha'r Ffordd, Pandy Tudur by Mr E A Roberts and Ms G E Williams. RESOLVED unanimously to support the application.

44.3 LOCAL ISSUES
44.3.1 Hedge needs trimming over the pavement near Llangernyw Cemetery and also brambles growing over the pavement on the road to Hafodunos.
44.3.2 Nannerth Road, Pandy Tudur in need of repair.
44.3.3 Roadside past Bryn Aber and Plas in Blaenau need to be cut – no cut made this year.
44.3.4 Hedge cutting needed down towards Capel Bethabara.
44.3.5 Twigs had fallen on the road between Bryn Gwylan and Llanfair TH due to high truck - the trees need to be pruned.
44.3.6 Two 'manholes' on Plas Matw hill - one on the bend and one the other side of the bridge.
44.3.7 Roadside soft by the river near Ysgubor Newydd and dangerous. It is understood that another accident had been there.

44.4 BILLS
Canolfan Bro Cernyw (Room hire) £ 10

The meeting closed at 9 o'clock.

The minutes were approved ...*D G Davies*............................ Date 30/9/15... ..